Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

SEICOLEG

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Adran A (40%): Rhaid i chi ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn
Adran B (60%): Rhaid i chi ateb UN (1) cwestiwn o blith dewis o chwech

---

ADRAN A (40%)
Darllenwch y braslun ymchwil canlynol, ac ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn isod

Mae cwmni ffitrwydd eisiau cadarnhau a yw traciwr ffitrwydd newydd yn gwella lefelau gweithgarwch corfforol. Er mwyn gwneud hyn, mae'r cwmni'n hysbysebu astudiaeth ar-lein, ac yn gwahodd pobl sydd wedi bod yn ceisio gwneud mwy o ymarfer corff yn ddiweddar i wirfoddoli ar gyfer yr astudiaeth. Cofrestrwyd y 286 person cyntaf a ymatebodd (30 ohonynt yn fenywod), a gofynnwyd iddynt lenwi holiadur yn mesur eu gweithgarwch corfforol wythnosol, gan gynnwys nifer y camau a gymerwyd a hyd y sesiynau ymarfer corff. Yna, maent yn rhoi traciwr ffitrwydd newydd i bob un sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth, ac yn gofyn iddynt ei wisgo am fis. Ar ddiwedd y mis, gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan lenwi'r un holiadur eto ynghylch eu gweithgarwch corfforol i asesu unrhyw newidiadau yn eu lefelau gweithgarwch.

1. Rhestrwch unrhyw broblemau posibl o ran y fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd.

2. Disgrifiwch sut y gallech wella cynllun a dulliau'r ymchwil hwn.

3. Pa fathau a fformatiau o gwestiynau y gellid eu cynnwys yn yr holiadur, a pham?

4. Pa faterion moesegol sydd angen eu hystyried yn y prosiect hwn?

EWCH YMLAEN I ADRAN B AR Y DUDALEN NESAF

ADRAN B (60%)
Atebwch UN (1) cwestiwn o blith y dewis o chwech isod.

1) Disgrifiwch adeiledd a swyddogaeth niwron.

2) Sut gallai seicoleg fod yn ddefnyddiol i'n helpu i ddeall pam fod pobl ifanc nad ydynt erioed wedi ysmygu yn dewis fepio, a sut y gallai seicoleg helpu i fynd i'r afael â'r pryder iechyd hwn?

3) Sut mae dealltwriaeth ynghylch sut mae'r ymennydd a'r system nerfol yn gweithio yn gallu bod yn ddefnyddiol ym maes seicoleg?

4) Mae claf sy'n ymweld â'r meddyg â symptomau iselder yn synnu bod y meddyg yn ei gyfeirio at grŵp cerdded yn hytrach na rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn iddo. Cymharwch y ddwy ffordd wahanol iawn hyn o drin iselder, gan gynnwys sut mae'r dulliau hyn yn gweithio, a chymharu manteision ac anfanteision pob un.

5) Beth all seicoleg ei ddweud wrthym am swyddogaethau cerddoriaeth mewn bywyd bob dydd? (Gall atebion ddod o safbwynt cerddorion sy'n canu ac yn chwarae offerynnau yn ogystal â phobl nad ydynt yn gerddorion sy'n gwrando ar gerddoriaeth neu sy'n dod i gysylltiad â cherddoriaeth mewn amgylchiadau bob dydd).

6) Yn ystod cwnsela gyda chleient, beth fyddech chi'n ei ddisgrifio fel cyfyng-gyngor moesegol?